ADNABOD AWDUR

# martin morgan

Cefais fy magu ym Mlaenafon, tref uchaf cwm mwyaf dwyreiniol De Cymru. Hyd at y 19eg ganrif, roedd y Gymraeg yn gryf yn yr ardal, ond erbyn hyn mae hi wedi hen ddiflannu. Felly, cefais fy magu yn ddi-Gymraeg. Doedd yr iaith ddim yn cael ei dysgu yn ysgolion y sir pan oeddwn yn blentyn, ac rwyf wedi ei dysgu flynyddoedd ar ôl gadael yr ysgol.

Pan oeddwn yn blentyn, roeddwn yn hoff iawn o arlunio a phaentio, chwarae cowbois a phêl-droed gyda'm brawd a'm ffrindiau, neu chwarae ar y mynydd. Ac yn y gaeaf, byddwn yn chwarae yn yr eira a sledio o ben uchaf y dref i'r gwaelod bron. Hefyd, byddwn yn gwrando ar storïau ar lin Mam, yn yr ysgol ac ar y radio. Doedd dim teledu gyda ni, ond roeddwn yn mwynhau gwrando ar y radio, yn enwedig rhaglenni comedi a drama – i blant ac oedolion. Hefyd, byddwn yn mynd i'r sinema a gweld ambell i bantomeim. A phan ddeuai Mam-gu o Lundain ar ymweliad, byddai hi'n adrodd hanesion am droseddwyr yn y ddinas fawr. At hyn, byddai Tad-cu yn sôn am y pethau rhyfedd a chyffrous oedd wedi digwydd iddo pan oedd yn blentyn. Felly, yn ystod fy mhlentyndod cefais brofi llawer o storiau trwy wahanol gyfryngau. Ac ar ben hyn oll, byddwn yn darllen "comics", sydd wedi dylanwadu'n gryf ar y math o lyfrau rydw i'n eu sgrifennu. Roedd y llyfrau'n rhai antur a dirgelwch a llyfrau doniol, a chyfuniadau o'r ddau fel sydd yn storïau Billy Bunter – hen ffefryn i mi.

Pam mod i'n sgrifennu llyfrau i blant yn hytrach nag i oedolion? Am fy mod yn cael llawer o hwyl wrth wneud – gall llyfrau i oedolion fod yn sych ac anniddorol. Byddai rhai yn dweud fy mod i'n blentyn o hyd – grêt!

## Llyfrau gan Martin Morgan sydd mewn print

### Cyfres Tad-cu

*Dannedd Dodi Tad-cu* £2.25
hefyd fel set llyfr a chasét £4.49
*Tad-cu yn Colli ei Ben* £2.50
*Tad-cu yn Mynd i'r Lleuad* £3.25
(Cymdeithas Lyfrau Ceredigion)

*Tad-cu Ddwywaith* £3.95
*Tad-cu yn Bwyta Popeth* £3.95
*Tad-cu ar ei Wyliau* £3.99
*Tad-cu a'i Gysgod* £4.50
(Dref Wen )

### Cyfres Twm a Mati Tat

*Twm a Mati Tat a'r Ddoli* £3.95
*Twm a Mati Tat a'r Beiliaid* £3.95
*Twm a Mati Tat a'r Ffilm Arswyd* £3.99
(Dref Wen)

Dwy stori fer yn y gyfrol
*Syniad Da Iawn* £9.00
Gwasg Carreg Gwalch



Lluniau | Jenny Barnes

**Enw** Martin Morgan

**Dyddiad Geni** 26 Hydref 1948

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni yn Llundain, ond fy magu ym Mlaenafon, Gwent.

**Ble cawsoch chi eich addysg?**
Ysgol Gynradd Hillside, Blaenafon; Ysgol Ramadeg West Monmouth, Pontypŵl.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn yn hoffi gwrando ar straeon; arlunio a phaentio; chwarae pêl-droed. Roeddwn yn casáu nofio.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**
Ar wahanol gyfnodau, roeddwn yn awyddus i fod yn yrrwr bws, yn artist ac yn awdur.

**Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
*The Wind In The Willows*, *Treasure Island*, *The Folk of the Runaway Tree*. (Cefais fy magu'n ddi-Gymraeg. Rwyf wedi dysgu'r Gymraeg fel oedolyn.)

**Beth yw eich hoff ddiddordebau?**
Darllen, celf, hen ffilmiau, cerddoriaeth, cerdded.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Weithiau mae hapusrwydd yn dod heb i mi wneud unrhyw beth arbennig.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Llenwi ffurflenni!

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Pan oeddwn tuag 8 oed ac yn ddisgybl yn nosbarth Mrs Price.

**Pa un oedd eich llyfr cyntaf?**
*Dannedd Dodi Tad-cu*.

**Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?**
Weithiau'n hawdd, weithiau'n anodd.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Weithiau ar ôl darllen stori neu weld ffilm. Weithiau ar ôl meddwl yn ddwys. Weithiau bydd syniad yn dod i'm meddwl fel fflach.

**Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Creu cymeriadau diddorol sy'n gwneud rhywbeth diddorol. Sgrifennu stori am eich hoff gymeriadau. Ailsgrifennu eich hoff storiau gan ddefnyddio'ch syniadau chi eich hun.

**Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu selio arnoch chi?**
Nac oes (dim eto!).

**Pa un yw eich hoff lyfr?**
Anodd dweud.

**Pa un yw eich hoff gymeriad?**
Tad-cu, Twm a Mati Tat.

**Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?**
Oes. Bod yn fwy taclus!

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL
2006

gwales.com
Llyfrau ar-lein
Books on-line

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government